

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, S. Lloyd-Selby, E. Penn, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, I.R. Buckley, C.P. Franks, J. Protheroe a N.C. Thomas.

49 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

50 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd I.A.N. Perry yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

51 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

52 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

53 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL AR DDATBLYGU MANWERTHU A CHANOL TREFI A DATBLYGU ECONOMAIDD, TIR AC ADEILADAU CYFLOGAETH (CYF) –

Cyflwynwyd cyfeiriad y Cabinet o 11 Mai, 2023 fel y'i ceir o fewn yr agenda gan y PRif Cynllunydd.

Roedd y Cabinet eisoes wedi derbyn adroddiad o 29 Medi, 2022, a amlinellodd yr angen i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) newydd yn unol â fframwaith monitro Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Bro Morgannwg 2011-2026 (CDLI). Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos ar gyfres o ddiweddariadau / CCA newydd mewn perthynas â'r pynciau canlynol:

- Datblygu Manwerthu a Chanol Trefi; a
- Datblygu Economaidd, Tir a Safleoedd Cyflogaeth.

Yn unol â chofnod C80, cynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus 6 wythnos ar y CCA drafft rhwng dydd Iau, 20 Hydref a dydd Iau, 1 Rhagfyr, 2022 gyda'r ddogfennaeth berthnasol ar gael ym mhrif swyddfeydd y Gyngor ac ar wefan y Cyngor.

Roedd y Cabinet wedi ystyried adroddiad dilynol ar adborth yr ymgynghoriad, Newidiadau Arfaethedig a Mabwysiadu ar 27 Chwefror, 2023, lle cafodd canlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar CCA Datblygu Manwerthu a Chanol Tref drafft a CCA Datblygu Economaidd, Tir a Safleoedd Cyflogaeth eu hystyried Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynwyd cymeradwyo'r CCA diwygiedig i'w defnyddio mewn penderfyniadau rheoli datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (Cofnod y Cabinet C245).

Yn dilyn cyfarfod y Cabinet ar 27 Chwefror, 2023, nodwyd mad oedd y Sesiwn briffio aelodau y cyfeirir ati yn adroddiad y Cabinet, o 29 Medi, 2022 wedi ei chadw fel un a ragwelwyd. I roi cyfle pellach i'r Aelodau i wneud sylwadau ar y dogfennau, cynhaliwyd sesiwn briffio i Aelodau ar 31 Mawrth 2023, y gwahoddwyd yr holl Aelodau iddi.

Felly manylodd yr adroddiad y materion a godwyd fel rhan o'r sesiwn briffio a'r ymateb i'r materion a godwyd. Yn dilyn ystyriaeth o'r materion, penderfynwyd nad oedd angen unrhyw welliannau pellach i'r dogfennau CCA.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch ymgynghori ehangach â'r adran fanwerthu, dywedodd y Prif Gynllunydd fod y Cyngor, rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr y llynedd, wedi targedu nifer o fanwerthwyr yng nghanol trefi. Aeth y CCA newydd hefyd i Siambrau Masnach ac ystod o randdeiliaid gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynghorau Tref a Chymuned. Fel rhan o hynny, roedd y CCA ar gael ar wefan y Cyngor ac wedi'u hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y Cynghorydd A. Ernest ei fod yn siomedig nad oedd rhai o'r pwyntiau a godwyd drwy'r ymarfer ymgynghori ac o sesiwn briffio'r Aelodau yn cael eu hystyried ymhellach. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Gynllunydd fod gwelliannau i'r CCA wedi'u gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd yr atodiad i'r adroddiad hefyd yn amlinellu'n benodol sut y cafodd pob pwynt a godwyd yn ystod sesiwn briffio'r Aelodau ei ystyried.

Holodd y Cynghorydd I. Perry a fyddai'r CCA yn cael ei adolygu yn unol â mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Perry y byddai rhaid diwygio'r CCA a'r CDLI newydd hefyd i adlewyrchu polisïau

Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd ac roedd angen iddynt gael mwy o gyfeiriad at gymunedau cynaliadwy. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Gynllunydd fod rhaid penderfynu ar y ceisiadau cynllunio'n unol â'r CDLI. Mae CCA wedi helpu i gefnogi hynny. Roedd hefyd yn bwysig ystyried nad oedd nodau CCA mor rhagnodol fel nad oedd unrhyw hyblygrwydd, er enghraifft o ran unedau gwag tymor hir yng nghanol trefi. O ran datblygiadau cynaliadwy, byddai'r canllawiau'n cwmpasu'r angen i ddeunyddiau adeiladu fod yn gynaliadwy, ond roedd rhaid i hyn fod ar lefel gywir o ragnodi, fel arall efallai na fydd rhai cynlluniau yn ymarferol, a oedd hefyd yn gorfod pwysu a mesur yr angen am dai fforddiadwy mewn rhai amgylchiadau.

Cododd aelodau'r Pwyllgor sylw pellach ynghylch pwysigrwydd datblygiadau newydd i fod yn fwy deniadol yn bensaernïol ac y byddai'n ofynnol i adeiladwyr a datblygwyr weithio o fewn y rheoliadau cyfredol.

O ran adolygu'r CCA newydd, dywedodd y Prif Gynllunydd y byddai'r Cyngor yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau i adlewyrchu polisiau a pholisiau newydd yn y CDLI newydd.

Wedi hynny, yr oedd

ARGYMHELLWYD – Y DYLLID nodi cynnwys yr adroddiad a'r adborth a wnaed fel rhan o'r sesiwn briffio Aelodau fel y manylir arno yn Atodiad 1 ac na ddylid gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

54 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2022/23 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL ARFAETHEDIG 2023/24 (CAC) –

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac amserlen arfaethedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/24.

Atodwyd y Tracio Argymhellion Heb Eu Cwblhau 2019-20 yn Atodiad A i'r adroddiad, 3^{ydd} Chwarter (Hydref – Rhagfyr 2022) Atodwyd y Tracio Argymhellion heb Eu Cwblhau yn Atodiad B i'r adroddiad, 4ydd Chwarter (Ionawr – Mawrth 2023) Atodwyd y Tracio Argymhellion Heb Eu Cwblhau yn Atodiad C i'r adroddiad, Flaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet 2023/24 yn Atodiad D i'r adroddiad, ac atodwyd Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn Atodiad E i'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu at ddau ymweliad safle diweddar, y cyntaf i'r safle Trosglwyddo Gwastraff yn y Bont-faen a'r ail i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Barri. Yn dilyn y rhain, roedd trydydd ymweliad yn cael ei drefnu ar gyfer 14 Gorffennaf i'r Gwaith Viridor yng Nghaerdydd. Byddai hynny'n dechrau am 10am, a byddai rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd ystyried meysydd i'w hadolygu ymhellach. Gofynnodd y Cyngorydd A. Ernest am adroddiad diweddar yn ymwneud â Strategaeth Coed y Cyngor. Cytunodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i drafod hynny gyda'r Cyfarwyddwr Lleoedd

O ran gwaith Adolygiad Gorchwyl a Gorffen, awgrymodd y Cadeirydd bwnc o'r enw - Cymunedau 15 Munud. Roedd hynny'n ymwneud â chanol trefi cydgysylltiedig gan gynnwys ailddatblygu / adfywio sy'n cwmpasu economi, yr amgylchedd, trafndiaeth gynaliadwy, twristiaeth, manwerthu ac amwynderau. Byddai hefyd yn edrych ar sut y gellid cefnogi cymunedau gwledig. Cytunodd y Pwyllgor i awgrym y pwnc hwnnw gael ei drosglwyddo i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu i'w ystyried ymhellach.

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A i C i'r adroddiad.
- (2) NODI Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio 2023/24.
- (3) CYMERADWYO Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2023/24, sydd ynghlwm yn Atodiad E i'r adroddiad, a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.
- (4) Y DYLLID cyfeirio awgrym Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o'r enw "Cymunedau 15 Munud" i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini i'w ystyried ymhellach er mwyn canfod a yw'r awgrym yn mynd rhagddo.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.
- (3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.
- (4) Er mwyn caniatáu i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini ystyried pynciau ar gyfer gweithgareddau adolygu Tasg a Gorffen.